



# CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

## Anerchiad y Llywydd

### Cymdeithas Ddysgedig Cymru 22 Mai 2019

Braint a phleser i mi yw annerch y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn o Gymdeithas Ddysgedig Cymru, bellach am y pumed tro. Ni wn yn iawn i ble'r aeth y blynyddoedd, ond gall Academi Genedlaethol Cymru edrych yn ôl ar naw mlynedd o gyflawni cadarn, a mentraf ddweud bod hyn yn fwy nag y gallai'r Cymrodwr Sefydlu fod wedi'i ragweld yn 2010.

Yn gyntaf gadewch i mi longyfarch 48 o Gymrodwr newydd ar gael eu hethol. Mae hyn yn dod â'ch Cymrodoriaeth i 540 sy'n tanlinellu ehangder a dyfnder y dalent yng Nghymru ac sy'n gysylltiedig â Chymru. Mae'r Athro Alan Shore wedi adrodd ar y datblygiadau dros y deuddeng mis diwethaf. Nid wyf am droedio'r un tir. Ond rhaid i mi ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith y Gymdeithas Ddysgedig, ein tîm rhagorol dan arweiniad Martin Pollard, aelodau o'r Cyngor a'n pwyllgorau sefydlog, y rheini sydd wedi gwasanaethu ar baneli, a phawb sydd wedi benthyg eu harbenigedd er gwasanaeth y Gymdeithas. Mae hyn wedi caniatáu i ni gynnal digwyddiadau ar draws Cymru a chyflawni ein dyletswydd i wasanaethu'r genedl.

Rhaid i fi ddiolch hefyd i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n ariannol i'r Gymdeithas. Rydym ni'n hynod ddiolchgar am y gefnogaeth gan holl brifysgolion Cymru. Eu grantiau nhw a ffioedd Cymrodwr yw ein prif ffynonellau cyllid. Gweithred hael arall yr oedd croeso mawr iddo oedd cymynrodd gan yr Athro Ieuan Gwynedd Jones ac fe'i cofnodwn gyda diolch. Rydym ni hefyd wedi dechrau datblygu ein hymdrechion codi arian mewn meysydd eraill, gan gynnwys ceisiadau i ymddiriedolaethau elusenol a sefydliadau, er mwyn datblygu uchelgais y Gymdeithas.

Yr unig gyfyngiad ar ein huchelgais yw adnoddau – dynol a chyfalaf. Ni allwn wneud mwy na'r hyn sy'n ymarferol ac sydd wedi'i gyllido. Mae arian yn bwysig, ond mae cyfraniadau Cymrodwr yn bwysicach. Rydym ni wedi llwyddo i gyflawni cymaint oherwydd cyfraniad cydweithwyr. Diolch i chi unwaith eto.

Yn yr hydref mabwysiadodd y Cyngor strategaeth y Gymdeithas dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar gorff o gyflawni.

Ein **cenhadaeth** yw hyrwyddo rhagoriaeth ac ysgolheictod, ysbrydoli dysg a dod â budd i'r genedl.

Er mwyn cyflawni'r genhadaeth hon, ein prif **nodau** yw:

- dathlu a chydabod rhagoriaeth
- hyrwyddo ymchwil ac ymchwilwyr rhagorol, crisialu uchelgais ac ysbrydoli ymchwilwyr, ieuenctid a chymdeithas yn fwy cyffredinol
- hybu datblygiad dysg, ysgolheictod ac addysg
- gweithredu fel ffynhonnell annibynnol o gyngor arbenigol

Mae ein huchelgais ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn seiliedig ar **werthoedd craidd** rhagoriaeth, amrywiaeth ac annibyniaeth.

Yn rhannol mae'r nodau hyn yn nodweddiadol o academi academaidd. Mae'r Gymdeithas Ddysgedig yn fwriadol hollgynhwysol, ac yn cynnwys y proffesiynau, busnes, y celfyddydau a gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r amrywiaeth hwn yn gryfder, ac rwyf i'n falch i ddweud y byddwn yn lansio Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn adeiladu ar ymdrechion cyfredol y Gymdeithas i annog Cymrodoriaeth amrywiol ac ymdrin ag unrhyw rwystrau at gyfranogi yn ein gwaith.

Mae'r Gymdeithas hefyd yn ymrwymo i wasanaethu'r genedl ac mae'n gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd. Yn ei hanfod dylai hefyd fod yn ysbrydoliaeth, gan annog uchelgais a dyhead. Mae Cymrodyr yn arddangos manteision canfod a magu talent a rhinwedd, a rhoi'r cyfle iddynt ffynnu. Hoffem weld Cymrodyr yn gweithredu fel patrymau cryfach i annog eraill i ddilyn ar hyd llwybrau rhagoriaeth. Mae Martin a'i dîm yn datblygu cyfleoedd pellach i chi wneud hynny, gyda chynlluniau ar gyfer prosiectau cymunedol a lansio Academi Gyrfa Gynnar arfaethedig i Gymru.

Unwaith eto eleni rydym ni wedi cynnig cyngor i'r llywodraeth a deddfwriaethau. Buom yn cyfrannu at y gwaith ar y cwricwlwm newydd i Ysgolion sy'n addo bod yn gyffrous ac yn heriol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sut y gallai Cymrodyr weithio gydag ysgolion ac oddi mewn iddynt. Mae cynnydd yn araf ond mae'n bwysig ein bod yn dyfeisio trefniadau sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ac sy'n ymateb i fuddiannau ysgolion. Mae ein menter gyda Seren Cymru'n datblygu'n dda. Bydd ein Pwyllgor Addysg sydd newydd ei sefydlu dan arweiniad yr Athro Gareth Rees yn fodd i symud y gwaith hwn yn ei flaen.

Rydym ni'n parhau i drefnu a chynllunio symposia ac chefnogi digwyddiadau eraill. Bydd eleni'n cynnwys tri phwnc pwysig.

Mae'r trydydd digwyddiad yn y gyfres ar economi Cymru ar y gweill gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd yn canolbwyntio llai ar yr ochr academaidd bur, gan ddod â gwneuthurwyr polisi a ffurfwyr barn at ei gilydd i ymdrin â heriau penodol economi Cymru.

Rydym ni'n cynllunio cynhadledd bwysig ar Ddwieithrwydd yng Nghaerdydd yn ystod gwanwyn 2020. Y nod fydd datgloi potensial llawn dwieithrwydd ac yn wir amlieithrwydd i nodi polisiau sy'n cyfoethogi bywydau'r boblogaeth gyfan ar draws amrywiaeth o agweddau. Y bwriad fydd mynd y tu hwnt i'r dimensiwn slafaidd sy'n cynnwys deddfwriaeth a chyfieithu. Rydym ni am ymdrin â ffisioleg, seicoleg, athroniaeth, economeg a mantais wybyddol dwieithrwydd yn ogystal â'i fanteision mewn sectorau penodol.

Yn fuan bydd Llywodraeth Cymru'n sefydlu ei hymagwedd at ddimensiwn rhyngwladol Cymru. Rydym ni'n cyfrannu syniadau ac ym mis Mawrth, gyda Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, cynullwyd cynrychiolwyr o'r trydydd sector i grynhoi cyfraniad cadarnhaol at y gwaith o baratoi polisi. Mae diddordeb mawr yn y byd allanol wedi bod yng Nghymru erioed. Yn y 1920au, deisebodd yn agos i 400,000 o fenywod Cymru Arlywydd yr Unol Daleithiau yn galw ar i UDA ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd.

Ar hyn o bryd mae angen polisi rhyngwladol cryf ar Gymru i adlewyrchu a chyflwyno buddiannau Cymru i'r byd. Wrth gwrs mae polisi tramor Prydain yn un o gymwyseddau Llywodraeth Prydain. Ond mae penderfyniadau a wneir yn Llundain yn aml yn effeithio ar feysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Gaerdydd. Ac ar y llaw arall mae gan faterion fel yr amgylchedd, amaeth ac addysg sy'n gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yng Nghymru elfennau rhyngwladol amlwg. Byddai cydlynu a chydweddu synhwyrol yn fanteisiol i Gymru ac yn wir i'r DU.

Mae grym meddal yn gynyddol bwysig i Gymru. Sut y gellir defnyddio ei ddimensiynau gwahanol, boed Addysg Uwch, y Celfyddydau, chwaraeon ac ati yn well i hyrwyddo buddiannau Cymru, ein sefydliadau, ein heconomi a'n pobl. Mae hwn yn gyfrifoldeb sy'n mynd y tu hwnt i lywodraeth ac yn cynnwys pob un ohonom mewn rhyw ffordd. Mae angen i bob un ohonom siarad yn uwch am Gymru a'i nodweddion cadarnhaol. Felly rydym ni'n gweithio i ganoli sylw ar yr amrywiol sectorau dan sylw, gyda chyfres o ddigwyddiadau hyd at y gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Mae pob un o'r pynciau hyn yn bwysig yng Nghymru ac mae iddynt ddimensiwn academaidd cryf. Yn bwysig, rydym ni hefyd yn gobeithio dod i gasgliadau fydd yn llywio ac yn dylanwadu ar bolisi ac ymarfer.

Mae'r gynulleidfa hon, y Gymrodoriaeth gyfan, ac Addysg Uwch yn lleisiau pwysig dros Gymru. Yn gyson â'n nodau, mae eich Cymdeithas wedi manteisio ar bob cyfle i siarad dros Ymchwil ac ysgolheictod, gyda llywodraethau, y Cyngor Cyllido ac yn ehangach. Yn benodol rydym ni'n parhau i bwysio ar UKRI i roi ystyriaeth i Gymru a datganoli mewn modd mwy systematig. Yn fwy nag erioed caiff cyllid ymchwil ei bennu'n gystadleuol, ond mae angen i ni bwysio i sicrhau bod ymchwilwyr Cymru'n cael cyfleoedd teg i sicrhau grantiau. Ymunom ni hefyd â'r ddwy academi Geltaidd mewn cyd-gyflwyniad i weinidogion Llywodraeth Prydain ac UKRI.

Yn yr un ysbryd rydym ni wedi parhau i weithio fel rhan o'r saith academi genedlaethol i liniaru effeithiau Brexit ar ymchwil ac ar ein prifysgolion. Nid lle'r Gymdeithas oedd gwneud safiad ynghylch rhinweddau

aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag rydym ni wedi bod yn gadarn wrth dynnu sylw at ganlyniadau niweidiol Brexit i Addysg Uwch ac ymchwil a phwyso am fesurau i liniaru'r anafanteision. Os bydd cyfranogi yn Horizon Ewrop ar ôl 2020 yn amhosibl, yna bydd cyllid amgen a recriwtio a symud staff a myfyrwyr heb rwystrau yn profi'n hanfodol os ydym am gynnal natur a llwyddiant ein prifysgolion.

Mae Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig yn parhau i wynebu cyfnod cythryblus heb unrhyw arwydd ei fod yn gostegu. Roedd datgeliadau diweddar o gwmp o ran recriwtio yn nhair o brifysgolion Grŵp Russell yn Lloegr yn arwydd clir o'r risgiau ariannol. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yr un mor heriol. Ymhellach rydym ni bob amser yn agored i effeithiau newidiadau polisi yn Lloegr. Byddwn yn wynebu problemau real os yw adroddiadau sydd ar y gweill yn argymhell ffioedd dysgu prifysgol is neu newidiadau mewn Benthyciadau Myfyrwyr gan fod rhaid i Gyfrifon Cyhoeddus y DU bellach adlewyrchu'r rhagolwg y bydd o leiaf 45% o fenthyciadau yn annhebygol o gael eu had-dalu. Mae'r Trysorlys yn amau bod rhai sefydliadau a rhai pynciau'n denu canran anghymesur o fyfyrwyr na fyddant yn gallu ad-dalu. Cadwch olwg ar hyn.

Mae hyn i gyd yn tanlinellu pam fod angen academiâu cenedlaethol arnom ni i wneud safiad dros y byd academaidd, pob ymchwil ac ysgolheictod ac ar lefel wahanol i'r sefydliadau unigol.

Dyna ddigon o besimistiaeth. Rwyf i wedi disgrifio ein huchelgais sydd wrth gwrs yn ychwanegol i'r holl dasgau arferol hanfodol. Mae Cymrodyr wedi'u hethol, gweithgareddau wedi'u trefnu, cyngor arbenigol wedi'i roi a rhagoriaeth wedi'i hyrwyddo.

Rydym ni'n awyddus iawn i gynnwys ymchwilwyr gyrfa gynnar. Mae'r medalau Dillwyn wedi dangos yr ansawdd sy'n bodoli. Rydym ni'n edrych ar sut y gallwn gynnwys ymchwilwyr ifanc yn fwy systematig, dod â nhw ynghyd a chynnig cyfleoedd iddynt gydweithio a rhwydweithio. Rydym ni'n rhagweld mwy o weithgaredd grŵp ffocws i fireinio'r hyn a fyddai'n cael ei werthfawrogi, ac a oes modd i ni ei ddarparu.

Mae gan Iwerddon gystadleuaeth Gwyddonydd Ifanc y Flwyddyn sy'n llewyrchus iawn. Yn wir mae rhai o enillwyr y gorffennol wedi bod yn rhyfeddol o lwyddiannus wrth ddatblygu eu syniadau'n fasnachol. Pam na allwn ni efelychu'r cysyniad hwn yng Nghymru? Byddai'n annog pobl ifanc i ymchwilio gwyddoniaeth a datblygu creadigrwydd.

Hyrwyddo ymchwil ac ysgolheictod gan gydnabod rhagoriaeth a chyflawniad yw'r hyn sy'n ein harwain. Wrth i ni agosáu at ddathlu deng mlwyddiant y Gymdeithas gallwn fod yn sicr bod ei sylfaeni'n gadarn. Y cam nesaf yw datblygu ein gweithgareddau'n uchelgeisiol er mwyn i ni allu bod yn ysbrydoliaeth eang yng Nghymru, a chynnig mwy o wasanaeth i'r genedl. Wrth i ni edrych ar yr heriau sy'n wynebu Cymru ac Addysg Uwch mae'r angen am Academi Genedlaethol gref yn amlwg. Gall Cymrodyr chwarae rhan fel unigolion a thrwy'r Gymdeithas Ddysgedig. Bachwn ar y cyfle hwnnw, un ac oll.